Sut mae AGIC yn arolygu'r GIG?

Yr hyn sy'n sail i'n gwaith arolygu

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan 2, Pennod 4) yn rhoi'r grym i AGIC gynnal arolygiadau, adolygiadau ac ymchwiliadau o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar ran y GIG. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i fynd i mewn i safle gofal iechyd a'r pŵer i archwilio, gwneud copïau o unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), a mynd â nhw oddi ar y safle.

Mae Deddf Safonau Iechyd a Gofal 2015 yn berthnasol i wasanaethau iechyd yng Nghymru o bob math ac o bob maint. Mae'r safonau hyn "wedi'u cynllunio i helpu i sicrhau bod pobl yn cael argraffiadau cyntaf cadarnhaol, a pharhaus, o'r gwasanaeth iechyd; eu bod yn derbyn gofal mewn amgylcheddau diogel, cefnogol ac iachusol; a'u bod yn deall ac yn cymryd rhan yn eu gofal". Disgwylir i bob un o wasanaethau iechyd y GIG fodloni'r safonau hyn.

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn bodloni'r safonau hyn ynghyd â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill. Rydym yn defnyddio'r safonau i ddod i farn am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion.

Rydym yn adrodd ar ganfyddiadau ein harolygiadau ac yn eu cyhoeddi o dan dri phennawd:

- **Ansawdd profiad y claf:**

  Rydym yn siarad â chleifion a/neu eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a'u heiriolwyr, er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:**

Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y person.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**

  Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Pwy ydym yn eu harolygu

Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG (neu gwasanaethau wedi'u hariannu gan y GIG). Er enghraifft:

- Ysbytai
- Meddygon teulu
- Practisau deintyddol
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau anabledd dysgu
- Sefydliadau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio at ddibenion meddygol, e.e. sganiau pelydr-X (gweler ein gwefan am ragor o fanylion).

Sut rydym yn arolygu

Gallwn roi rhybudd cyn arolygu gwasanaethau'r GIG neu gallwn eu harolygu'n ddirybudd.

Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod y dull hwnnw'n gadael i ni weld gwasanaethau'n gweithredu fel ag y maent fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd o flaen llaw yn achos arolygiad dirybudd. Fel rheol, mae ein harolygiadau ysbytai yn rhai dirybudd.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn cynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd. Byddai'r gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy lythyr neu dros e-bost o'r bwriad i gynnal arolygiad hyd at 12 wythnos o flaen llaw mewn achos o'r fath. Wrth benderfynu a ddylid rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad, rydym yn ystyried:

- P'un a fyddai arolygiad dirybudd yn amharu ar gleifion a staff i'r graddau y byddai'n annerbyniol
- P'un a oes angen casglu gwybodaeth gan y darparwr cyn cynnal arolygiad
- P'un a oes angen i ni sicrhau bod rhai aelodau o staff allweddol yn bresennol ar ddiwrnod(au) yr arolygiad.

Am y rhesymau hynny, byddwn fel rheol yn rhoi rhybudd cyn arolygu meddygon teulu a phractisau deintyddol. Er hynny, fe allwn ddewis cynnal arolygiad dirybudd ar unrhyw adeg ac am amryw o resymau.

Bydd ein tîm arolygu yn cynnwys o leiaf un arolygydd AGIC ac o leiaf un adolygydd cymheiriaid clinigol ag arbenigedd yn y maes sy'n cael ei arolygu. Er enghraifft, yn achos arolygiad practis deintyddol, deintydd yw ein adolygydd cymheiriaid clinigol sydd â phrofiad ymarferol diweddar ym maes deintyddiaeth. Bydd niferoedd y tîm arolygu yn amrywio yn ddibynnol ar faint a chymhlethdod y gwasanaeth.

Fel arfer, mae ein harolygiadau yn para rhwng un a thri diwrnod, yn ddibynnol ar y math o wasanaeth rydym yn ei arolygu.

Sut ydym ni'n penderfynu ble i'w arolygu a pha bryd

Wrth benderfynu ble a phryd i'w arolygu, rydym yn ystyried yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth yr ydym wedi'u casglu am sefydliad dros amser. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth o arolygiadau neu adolygiadau blaenorol AGIC

- Pa mor fregus yw'r garfan o gleifion a chymhlethdod y gwasanaeth
- Data penodol sydd ar gael i AGIC
- Problemau a phryderon o du sefydliadau partner
- Pryderon a fynegwyd gan gleifion a staff (gweler ein gwefan i gael rhagor o fanylion am fynegi pryder)
- Blaenoriaethau cenedlaethol, neu safonau neu ofynion ansawdd newydd
- Mannau gwan

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â sut yr ydym yn penderfynu ar ganolbwynt ein gwaith ar gael ar ein gwefan.

Yr hyn yr ydym ni'n ystyried mewn arolygiadau

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig â llywodraethiant y gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu.

Mae'r tabl canlynol yn dangos pob un o'r Safonau Iechyd a Gofal yr ydym yn eu hystyried, am beth yr ydym yn edrych yn ystod arolygiad, a sut yr ydym yn gwneud hyn.

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
Ansawdd	Cadw'n iach		

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
profiad y claf	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	• Dylid cefnogi cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain • Dylai cleifion wybod pa wasanaethau gofal a pha gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu • Dylid cefnogi cleifion i wneud dewisiadau ynglŷn â'u hiechyd a'u lles	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Arsylwadau • Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i'r claf • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
	Gofal ag urddas		
	4.1 Gofal urddasol	• Dylid trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd • Dylid diwallu anghenion cleifion waeth beth fo'u crefydd, eu hiaith, eu diwylliant a'u teimladau	• Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Arsylwi ar y rhyngweithio rhwng staff a'r cleifion • Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr
	4.2 Gwybodaeth i gleifion	• Dylai cleifion gael gwybodaeth dda am eu gofal, sy'n hawdd i'w deall • Dylid cefnogi cleifion i wneud dewisiadau	• Adolygu'r wybodaeth i gleifion • Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
		ynglŷn â'u gofal	• Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	• Dylid diwallu anghenion cyfathrebu cleifion • Dylai cleifion fedru deall gwybodaeth am eu gofal a'u hiechyd • Gall cleifion ddweud wrth wasanaethau iechyd beth sydd eu hangen arnynt neu beth yw eu barn	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
	Gofal amserol		
	5.1 Mynediad amserol	• Dylai cleifion dderbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, gan y staff cywir	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
			• Arsylwadau • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
	Gofal unigol		
	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	• Dylid cefnogi cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain • Dylai cleifion allu gwneud dewisiadau ynglŷn â'u gofal	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
	6.2 Hawliau pobl	• Rhaid i bob gwasanaeth iechyd ddeall a chefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Adolygiad o gofnodion hyfforddi staff • Arsylwadau

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
			• Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff
	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	• Dylai cleifion a'u teuluoedd fedru dweud wrth wasanaethau iechyd am y gofal maent yn ei dderbyn gan wasanaethau iechyd • Dylai gwasanaethau iechyd fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal • Dylai gwasanaethau iechyd fod yn agored ac yn onest â chleifion wrth ddweud bod rhywbeth wedi mynd o chwith • Dylai gwasanaethau iechyd ddysgu gan gleifion a defnyddio'r hyn maent yn ei ddweud i wella gwasanaethau	• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Adolygu'r systemau adborth, gan gynnwys y polisi a gweithdrefnau cwyno • Arsylwadau • Gwybodaeth a gedwir gan AGIC • Cyfweliadau ag uwch-reolwyr
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	Gofal diogel		
	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	• Rhaid i wasanaethau iechyd ofalu am iechyd a diogelwch cleifion a gwneud yn siŵr bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli cystal ag sy'n bosibl	• Archwilio polisïau a gweithdrefnau • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
			• Cyfweld ag uwch-reolwyr
	2.2 Atal difrodi pwysedd a meinweoedd	• Dylid helpu cleifion i ofalu am eu croen • Dylai gwasanaethau iechyd wneud yn siŵr nad yw cleifion yn cael dolur i'r croen drwy eistedd neu orwedd am ormod o amser	• Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Arsylwadau • Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff
	2.3 Atal cwympiadau	• Dylai gwasanaethau iechyd wirio a yw cleifion yn debygol o gwympo • Dylai gwasanaethau iechyd wneud popeth o fewn eu gallu i atal pobl rhag cwympo ac anafu eu hunain	• Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff
	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	• Dylai gwasanaethau iechyd gynnwys pawb wrth helpu i reoli ac atal heintiau fel	• Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
		nad yw pobl yn mynd yn sâl	• Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff
	2.5 Maeth a hydradu	• Dylid annog cleifion i fwyta ac yfed fel y gallant wella'n gynt	• Adolygu'r dogfennau, e.e. prosesau archwilio a monitro • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Arsylwadau • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
	2.6 Rheoli meddyginiaethau	• Dylai cleifion gael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir	• Adolygu'r dogfennau – e.e. archwiliadau, polisïau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
			• Trafodaethau â chleifion; y teulu; ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Arsylwi ar weinyddu a chadw meddyginiaethau
	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	• Rhaid i wasanaethau iechyd gefnogi ac amddiffyn pob plentyn ac unrhyw oedolyn sy'n agored i niwed neu mewn perygl	• Adolygiad o gofnodion hyfforddi staff • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu • Adolygu asesiadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol mewn cofnodion meddygol cleifion lle bo'n briodol
	2.8 Rheoli gwaed	• Dylai cleifion fedru cael gwaed pan fo angen hynny arnynt	• Archwilio polisïau a gweithdrefnau • Cofnodion hyfforddiant staff • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Cyfweliadau ag uwch aelodau staff
	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	• Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd wneud yn siŵr bod yr holl offer sy'n cael eu defnyddio ganddynt yn ddiogel ac yn	• Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Cyfweliadau ag uwch aelodau staff

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
		gweithio'n dda	• Adolygu dogfennau, e.e. gwasanaethu a gosod
	Gofal effeithiol		
	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	• Dylai cleifion gael y gofal a'r gefnogaeth gywir yn ôl eu hanghenion • Dylai gwasanaethau iechyd wybod beth yw'r ffyrdd gorau o ofalu am gleifion a'u cefnogi	• Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg, prosesau monitro • Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi	• Dylai gwasanaethau iechyd ystyried ffyrdd i wella gwasanaethau ar sail ymchwil dda	• Cyfweliadau ag uwch-reolwyr • Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau, mentrau gwella ansawdd • Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	• Dylai gwasanaethau iechyd feddu ar y wybodaeth gywir a sicrhau bod y wybodaeth honno yn cael ei rhannu'n	• Cyfweliadau ag uwch-reolwyr • Adolygu dogfennau, e.e. polisïau a gweithdrefnau

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
		ddiogel	• Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff
	3.5 Cadw cofnodion	• Mae'n bwysig tu hwnt bod gwasanaethau iechyd yn cadw cofnodion da i wneud yn siŵr bod cleifion yn derbyn y gofal cywir • Rhaid i wasanaethau iechyd ddilyn y rheolau ynglŷn a sut i gofnodi gwybodaeth a'i chadw'n ddiogel	• Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Adolygu dogfennau, e.e. archwiliadau
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	• Dylai pob gwasanaeth iechyd ganolbwyntio ar yr unigolyn. Dylent ganolbwyntio ar anghenion y claf a gwrando arno • Dylai gwasanaethau iechyd wneud y pethau cywir yn dda, gwybod pa mor dda mae pethau'n mynd, bod yn agored ac yn onest ar bob achlysur, bod yn ofalgar ac yn garedig, a gweithio'n galed	• Cyfweliadau ag uwch-reolwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Adolygu dogfennau, e.e. polisïau a gweithdrefnau, archwiliadau, cynlluniau'r dyfodol • Gwybodaeth a gedwir gan AGIC • Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	Staff ac adnoddau		
	7.1 Y gweithlu	• Dylai gwasanaethau iechyd gael digon o staff, sy'n meddu ar y sgiliau a'r	• Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd

Thema arolygu AGIC	P'un o'r Safonau lechyd a Gofal sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n edrych?	Sut yr ydym yn gwneud hyn?
		hyfforddiant cywir, i allu rhoi'r gofal gorau i gleifion	• Trafodaethau a chyfweliadau â'r staff • Adolygu dogfennau, e.e. rotâu, cofnodion hyfforddiant staff, gweithdrefnau recriwtio • Arsylwi

Beth sy'n digwydd ar ôl ein harolygiadau?

Mae'r diagram isod yn dangos y broses yn dilyn ein harolygiadau.



Byddwn yn ysgrifennu adroddiad arolygu

Ar ôl ein harolygiadau, rydym yn ysgrifennu adroddiad arolygu a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Cyn hynny, mae gwasanaethau yn derbyn adroddiad arolygu ar ffurf drafft er mwyn gwirio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad.

Byddwn yn gofyn i wasanaethau wneud gwelliannau lle bo'n berthnasol

Pan fyddwn yn nodi meysydd i'w gwella neu bryderon, mae modd inni gymryd y camau gweithredu a ganlyn:

- Byddwn yn codi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion gyda'r gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad
- Gallwn hefyd benderfynu i ysgrifennu at y gwasanaeth o fewn dau ddiwrnod i'r arolygiad gan ofyn iddo gyflwyno cynllun gwella ar unwaith. Adwaenir hyn fel ein proses sicrwydd ar unwaith. Diben gwneud hyn yw ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth fynd i'r afael â'n pryderon ar unwaith neu roi mesurau dros dro ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu gwarchod
- Gallwn ofyn i'r gwasanaeth gyflwyno cynllun gwella sy'n disgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau cyffredinol ein harolygiad
- Gallwn ofyn i gynrychiolwyr y gwasanaeth fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod ein pryderon

Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG fod â threfniadau llywodraethu da ar waith i fonitro'r gofal a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu ganddynt yn barhaus ac i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd fedru nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda'r gwasanaethau gofal iechyd maent yn eu darparu yn gyflym ac yn effeithiol, fel bod cleifion yn ddiogel ac yn derbyn gofal da.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw rheoli perfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Byddwn yn penderfynu a oes angen inni gymryd camau pellach

Ar ôl cwblhau arolygiad a derbyn unrhyw gynllun gwella, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i fynd ar drywydd materion a nodwyd yn ystod arolygiad. Mae modd inni gymryd y camau canlynol:

- Gofyn i'r gwasanaeth am ddiweddariad ar gyflawniad cynllun gwella

- Cynnal arolygiad â phwyslais penodol i wirio neu brofi p'un a yw camau gweithredu penodol wedi'u cwblhau
- Trefnu ail arolygiad llawn sydd heb ei gyfyngu i'r problemau a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol
- Gofyn i asiantaethau eraill ystyried cynnal gweithgareddau dilynol gydag AGIC neu ar eu pennau eu hunain

Byddwn hefyd yn ystyried, ar sail barhaus, unrhyw bryderon a ddaw i'n sylw am wasanaethau gofal iechyd (e.e. gan gleifion a staff) neu unrhyw wybodaeth (e.e. digwyddiadau neu ganfyddiadau arolygiadau) i bennu pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar ran AGIC. Gellir cael mwy o fanylion ar ein gwefan.

Yn achos ein holl waith yn y GIG, byddwn yn rhannu'n canfyddiadau (da a drwg) gyda Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Mae ein gwaith hefyd yn bwydo i Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.